

Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Hannah Blythyn AC

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

17 Ebrill 2020

Annwyl Lesley a Hannah,

Dyma obeithio eich bod yn cadw'n iach.

Fel y gwyddoch, yn wyneb pandemig presennol y Coronafeirws, bu'n rhaid canslo cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 25 Mawrth, lle'r oeddech i fod i roi tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('y Memorandwm') ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

O ystyried nad yw pwyllgorau'r Cynulliad yn cyfarfod yn ôl eu harfer ar hyn o bryd, rydym yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i aildrefnu eich sesiwn dystiolaeth, o leiaf hyd y gellir ei ragweld. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y byddem, fel dewis arall, yn croesawu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a nodir isod.

Ar hyn o bryd, y dyddiad cau y mae'r Pwyllgor Busnes wedi'i bennu ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn yw 1 Mai 2020, ac rydym yn gweithio tuag at y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, rydym ar deall bod cynnydd y Bil trwy Senedd y DU wedi'i ohirio. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau, ar y cyfle cyntaf, a ydych yn bwriadu i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn fynd rhagddi fel y cynlluniwyd, neu a ydych yn gweithio tuag at amserlen ddiwygiedig.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddCCERA@assembly.wales

☎ 0300 200 6565

Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd

Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru (er enghraifft ar wastraff, effeithlonrwydd adnoddau, dŵr ac ansawdd aer lleol) ym Mil Amgylchedd y DU ('Bil y DU'). Ymhlith y rhesymau a roddwyd mae diffyg amser o fewn rhaglen ddeddfwriaethol y Cynulliad i gyflwyno Bil Amgylchedd Cymru, systemau gweinyddol cydgysylltiedig, a'r angen am ddull trawsffiniol.

1. A allwch chi ymhelaethu ar eich rhesymeg dros gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Memorandwm?

2. A allwch chi egluro pa rai o'r darpariaethau ar gyfer Cymru sy'n hanfodol o ran amser, a pham?

3. Beth yw'r goblygiadau i bolisi Cymru yn y dyfodol o fewn y meysydd pwnc perthnasol, os na chaiff y darpariaethau ar gyfer Cymru eu cynnwys ym Mil y DU?

Rhan 1 - Llywodraethu amgylcheddol

Nod Rhan 1 o Fil y DU yw darparu fframwaith newydd ar gyfer llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit. Mae'n cynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd, sef Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Bydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn berthnasol ledled y DU, ond dim ond o ran materion amgylcheddol nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru.

Yn fuan ar ôl cyhoeddi Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2019, gwanethom ysgrifennu atoch yn gofyn i chi roi manylion y materion amgylcheddol nad ydynt wedi'u datganoli, y byddai gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd gyfrifoldeb drostynt yng Nghymru. Cawsom wybod gennych nad yw Llywodraeth y DU wedi cynnig unrhyw eglurder ynghylch yr hyn y mae'n ei ystyried yn fate a gedwir yn ôl neu'n fater sydd wedi'i ddatganoli o ran yr amgylchedd.

4. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion amgylcheddol nad ydynt wedi'u datganoli y bydd gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd oruchwyliaeth drostynt mewn perthynas â Chymru?

Codwyd pryder mewn tystiolaeth nad yw ystyr *amgylchedd naturiol* yng Nghymal 41 (sy'n diffinio'r ymadrodd at ddibenion Rhan 1 o Fil y DU) yn cwmpasu'r amgylchedd morol i raddau digonol.



5. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaethau am yr amgylchedd naturiol yn berthnasol mewn perthynas â Chymru, i ba raddau ydych chi'n fodlon bod yr amgylchedd morol wedi'i gwmpasu i raddau digonol o fewn ystyr yr ymadrodd *amgylchedd naturiol* yng Nghymal 41?

- **Os na chaiff yr amgylchedd morol ei gwmpasu, sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hynny?**

Mae Bil y DU (Cymal 24 (4)) yn darparu bod yn rhaid i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig pe byddai'r gwaith y mae'n ei wneud yn berthnasol i gorff o'r fath. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, gallai hynny gynnwys achosion lle byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, yn ystod ymchwiliad, yn dod yn ymwybodol o fater amgylcheddol trawsffiniol a allai fod wedi golygu torri deddfwriaeth ddatganoledig y tu allan i'w gylch gwaith, ond y byddai'n syrthio o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu amgylcheddol datganoledig.

Codwyd pryderon mewn tystiolaeth nad yw'r gofyniad hwn o ran ymgynghori'n ddigon cryf i sicrhau bod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cydweithio â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig – er enghraifft, lle gallai cwyn fod yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig. Yn ôl y Memorandwm, mae hwn yn fater o bryder i Lywodraeth Cymru hefyd, "sy'n cael eu trafod gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar hyn o bryd".

6. A allwch ymhelaethu ar y pryderon sy'n dal i fod gennych mewn perthynas â Chymal 24(4)? Yn benodol, a allwch chi egluro a ydych am weld diwygiad i Fil y DU i sicrhau bod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru yn cydweithredu a / neu'n cydlafurio?

7. A allwch chi ein diweddarau ar eich trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'ch pryderon ynghylch Cymal 24(4), gan gynnwys unrhyw ganlyniad?

8. Beth yw eich safbwynt os na ellir datrys y mater hwn cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol?

Er bod Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol yn Lloegr trwy Fil y DU, ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddeddfu i fynd i'r afael â bylchau yng Nghymru cyn diwedd y cyfnod gweithredu, a chodwyd pryderon ynghylch hynny mewn tystiolaeth.



9. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd rydych chi wedi'i wneud wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru, gan gynnwys:

- canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid, a oedd i fod i adrodd ar ddechrau 2020;
- yr amserlen rydych chi'n gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno Bil egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru; a
- sut yr eir i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n codi yn dilyn diwedd y cyfnod gweithredu yn absenoldeb Bil ar gyfer Cymru?

Rhan 3 - Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau

Mae Rhan 3 yn rhoi pwerau helaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i ddarparu ar gyfer cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr diwygiedig, i reoleiddio ar gyfer safonau eco-ddylunio a gwybodaeth effeithlonrwydd adnoddau ar draws ystod eang o gynhyrchion, ac i gyflwyno cynllun dychwelyd ernes, a chyflwyno taliadau am eitemau plastig untro.

10. Sut a phryd ydych chi'n bwriadu defnyddio'r pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn Rhan 3 o Fil y DU?

11. Sut mae'r darpariaethau yn Rhan 3 yn cyd-fynd â pholisi effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff presennol Llywodraeth Cymru, a chyda'r cynigion a nodwyd yn ei ymgynghoriad ar y strategaeth ar gyfer economi gylchol?

12. Pryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei strategaeth newydd o ran gwastraff (i ddisodli cynllun 2010, Tuag at Ddyfodol Diwastraff)?

- A allwch chi egluro a fydd y strategaeth wastraff newydd yn cynnwys canllawiau sy'n ymwneud â llosgyddion?

13. I ba raddau ydych chi'n fodlon y bydd y darpariaethau yn Rhan 3 yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais mai Cymru fydd y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi?

Cyfrifoldeb cynhyrchwyr

Mae cymal 47 a 48, ac Atodlenni 4 a 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldeb cynhyrchwyr a rhwymedigaethau cysylltiedig. Maent yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau i gyflwyno



cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr diwygiedig. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y maes hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').

Yn 2019, bu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar y cyd ar gynigion ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth ar gyfer economi gylchol, sy'n cynnwys cynigion ynghylch cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Yn ôl yr ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn "cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr..."

14. A allwch gadarnhau eich bod yn bwriadu i Gymru fod yn rhan o gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar lefel y DU? Os felly, a fydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr diwygiedig – i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru – yn cael ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ei bwerau cydredol plws, a pha gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn?

15. Mae tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor sy'n awgrymu y dylid ymestyn y pŵer cyffredinol yn Rhan 1 o Atodlen 4 i alluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer gosod rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr at y diben o "leihau faint o ddeunyddiau crai rydym yn eu defnyddio". Beth yw eich ymateb i hyn?

16. Mae tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor sy'n awgrymu y dylid diwygio'r pŵer cyffredinol yn Rhan 1 o Atodlen 5 i sicrhau bod cynhyrchwyr yn talu costau cylch bywyd llawn cynhyrchion neu ddeunyddiau neu'n cyfrannu atynt. Beth yw eich ymateb i hyn?

Cynlluniau Dychwelyd Ernes

Mae Cymal 51 ac Atodlen 8 yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau sy'n sefydlu cynlluniau dychwelyd ernes. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y maes hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').

Ym mis Chwefror 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ar y cyd ar gynigion ar gyfer cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes. Dywedoch wrthym o'r blaen fod canlyniad yr ymgynghoriad wedi nodi bod cefnogaeth eang i gyflwyno cynllun ac, wrth ddwyn hyn yn ei flaen, y byddwch yn gweithio i sicrhau bod y dull terfynol yn gweddu i Gymru.



17. A allwch egluro a ydych yn bwriadu i Gymru fod yn rhan o Gynllun Dychwelyd Ernes gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon? Os felly, a fydd y Cynllun Dychwelyd Ernes – i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru – yn cael ei sefydlu o dan bwerau cydredol plws yr Ysgrifennydd Gwladol, a pha gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn?

- **Beth yw'r ystyriaethau ymarferol ar gyfer bod yn rhan o Cynllun Dychwelyd Ernes gyda Gogledd Iwerddon?**
- **Os na ellir cytuno ar Gynllun Dychwelyd Ernes gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon, a ydych yn bwriadu cyflwyno cynllun yng Nghymru o hyn?**

Roedd yr ymgynghoriad ar y cyd yn cynnwys cynigion ar gyfer sefydliad annibynnol o dan arweiniad diwydiant / cymdeithas fasnach i reoli'r broses o roi'r cynllun ar waith a'i redeg o ddydd i ddydd, ac fe'i elwir y Sefydliad Rheoli Ernesau.

18. Pwy fydd yn gyfrifol am reolaeth weithredol y Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru?

Roedd yr ymgynghoriad ar y cyd yn cynnwys cynigion ar gyfer corff monitro a gorfodi ar wahân, a fyddai'n annibynnol ar y Sefydliad Rheoli Ernesau, cynhyrchwyr a'r rhai sydd ynghlwm wrth weithrediad y Cynllun Dychwelyd Ernes. Awgrymodd y gallai Asiantaeth(au) yr Amgylchedd gyflawni'r rôl monitro a gorfodi.

19. A allwch chi gadarnhau a ydych yn bwriadu i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi'r Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru? Os felly, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth?

Codi tâl am eitemau plastig untro

Mae Cymal 52 ac Atodlen 9 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, i wneud darpariaeth ynghylch codi tâl am eitemau plastig untro.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyflwyno cynigion i wahardd ystod o eitemau plastig untro, gan gynnwys gwellt, cyllyll a ffyrc plastig, a chyfarpar polystyren i ddal bwyd a diod.

20. Sut y mae'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch codi tâl am eitemau plastig untro yn cydweddu â chynigion Llywodraeth Cymru i wahardd rhai o'r eitemau hynny yn 2021?



21. A allwch chi gadarnhau ai eich bwriad yw defnyddio'r pwerau i godi tâl hyd nes y gellir cyflwyno gwaharddiad ar eitemau plastig untro?

22. Mae tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor sy'n awgrymu y dylid ymestyn y pwerau i godi tâl am eitemau untro y tu hwnt i blastigau ac ar gyfer deunyddiau eraill. Yn ôl rhanddeiliaid, byddai hynny'n helpu i osgoi cymell cynhyrchwyr i ddisodli plastig â deunyddiau eraill sy'n niweidiol i'r amgylchedd ar gyfer eitemau defnydd untro. Beth yw eich ymateb i hyn?

Rhan 4 - Ansawdd Aer

Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad ar Gynllun Aer Glân. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i roi blaenoriaeth i Fil Aer Clir ac, yn ôl yr ymgynghoriad, bydd yn cyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

23. O ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd yn sgil pandemig Coronafeirws Covid-19 – a'r effaith bosibl ar fusnes y Llywodraeth yn y tymor canolig – a allwch chi gadarnhau a ydych dal yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn?

Mae'r ymgynghoriad Aer Glân, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys cynnig i "[dd]iwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol i symud o ddiweddarau'r [rhestri o danwydd awdurdodedig a lleoedd tân wedi'u heithrio i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg] trwy Offeryn Statudol i restru a gyhoeddir ar-lein." Mae Rhan 2 o Atodlen 12 i Fil y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn. Cyhoeddwyd Bil y DU pan oedd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Clir yn mynd rhagddo. Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi eto.

24. Pam ydych chi wedi dewis dwyn y cynnig uchod ymlaen trwy Fil y DU, o ystyried nad yw canlyniad ymgynghoriad y Cynllun Aer Glân yn hysbys eto, ac o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu Bil Aer Clir?

Rhan 5 - Dŵr

Ym mis Ionawr 2019, gofynnodd Llywodraeth y DU am farn ar sylwedd mwyafrif y darpariaethau sy'n ymwneud â dŵr yn ei hymgyngoriad ar wella'r broses o reoli dŵr yn yr amgylchedd. Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i lywio'r darpariaethau perthnasol yn Rhan 5 o Fil y DU.

25. A allwch chi roi manylion unrhyw ymgynghoriad rydych chi wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid Cymru ar y darpariaethau ar gyfer Cymru yn Rhan 5 o Fil y DU, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw?



26. Sut a phryd ydych chi'n bwriadu defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 5 o Fil y DU?

Mae gan gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr gyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ran 4 o'r Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991, i wneud yn siŵr bod dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn cael eu draenio mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad statudol iddynt baratoi cynlluniau hirdymor i'r perwyl hwn. Mae Cymal 76 o Fil y DU yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy osod gofyniad ar gwmnïau carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr i baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli draenio a charthffosiaeth.

Codwyd pryderon mewn tystiolaeth bod yr ymadrodd *rheoli draenio a charthffosiaeth* a ddefnyddir ym Mil y DU yn gulach ei gwmpas na *rheoli draenio a dŵr gwastraff*. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod yr ymadrodd *rheoli draenio a dŵr gwastraff* eisoes wedi'i fabwysiadu gan y diwydiant yn rhaglen Water UK, *21st Century Drainage Programme*, ac mewn cynlluniau sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd gan gwmnïau dŵr.

27. A allwch chi esbonio'r rhesymeg dros ddefnyddio'r ymadrodd *rheoli draenio a charthffosiaeth* yn y cyd-destun hwn?

28. Sut ydych chi'n ymateb i'r pryder mewn tystiolaeth bod yr ymadrodd *rheoli draenio a charthffosiaeth* yn gulach ei gwmpas na *rheoli draenio a dŵr gwastraff*, sef yr ymadrodd a fabwysiadwyd eisoes gan y diwydiant?

- Pa fathau o ddŵr a gwmpesir gan yr ymadrodd *draenio a dŵr gwastraff*, nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr ymadrodd *rheoli draenio a charthffosiaeth*, a sut yr ymdrinnir â'r mathau hynny o ddŵr?

29. Pa waith ydych chi wedi'i gynnal i asesu'r gost bosibl i gwmnïau dŵr a / neu garthffosiaeth o fodloni'r gofynion o ran cynigion ar y cyd, cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder, a chynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth?

Goblygiadau ariannol y darpariaethau yng Nghymru

Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU yn nodi y bydd costau'r Bil yn cynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – gweithgareddau ychwanegol i gyrrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol a chyrrff hyd braich; adnoddau ychwanegol i gefnogi'r broses o gyflawni gweithgareddau, fel swyddogion gorfodi a llunwyr polisi; ac isadeiledd ac asedau eraill, gan gynnwys systemau TG gwell er mwyn cyflawni mesurau penodol. Yn hynny o beth, bydd Bil y DU yn gofyn am benderfyniad ariannol, a phenderfyniad dull a modd.



Yn ôl y Memorandwm, "nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i'r Cynulliad ar hyn o bryd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y bil hwn".

30. A allwch chi roi manylion unrhyw waith rydych chi wedi'i wneud er mwyn asesu costau'r darpariaethau i Gymru, ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill fydd yn gorfod talu'r costau?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 28 Ebrill 2020 fan bellaf. Os yw'r terfyn amser hwnnw'n peri unrhyw drafferthion i chi, mae croeso i'ch swyddogion gysylltu â'r tîm Clercio er mwyn trafod ymhellach.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

